

Cyngor Bro Llanllwni.

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Ionawr 2020 am 8.00yh. Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn cynnwys Agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Tachwedd a mis Rhagfyr.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y Clerc wedi cyflwyno cais i Statkraft. Penderfynwyd gan y Cynghorwyr y byddai'r Clerc yn anfon at yr ymgeiswyr i gyd ar ôl cynnal Cyfarfod Statkraft ar 28 Ionawr 2020.

BLODAU YN Y PENTREF

Yr oedd Eric Davies wedi prynu blodau Cennin Pedr ac wedi eu plannu yn y potiau blodau o amgylch y pentref.

LLWYBR CYHOEDDUS DOLCOED

Cafwyd cadarnhad bod y gwaith wedi ei gwblhau'n foddhaol a bod y llwybr cyhoeddus wedi ei symud.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Ionawr 2020 ar y wefan ac i ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

Nodwyd bod angen newid sawl dolen ar y wefan. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn trafod y materion hyn gyda'r gwefeistr cyn y Cyfarfod nesaf.

CYNGOR SIR GŶR:

Tynnwyd sylw at ddraeniau oedd wedi'u tagu a chyflwr gwael amryw ffyrdd yn y plwyf.

Roedd y Clerc wedi danfon at Gyngor Sir Caerfyrddin i ddatgan pryder am gyflwr llwybr cyhoeddus Eglwys Llanllwni - Pontllwni a'r baw cŵn oedd ar hyd y llwybr, ac yn gofyn a fyddai'n bosib codi arwyddion. Dim datblygiad pellach. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu eto am y diweddaraf.

GOHEBIAETH

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr a bu trafod ar y Praesept ar gyfer eleni.

Penderfynwyd cefnogi Ysgol Sul Eglwys Llanllwni, Ysgol Rygbi Ceredigion o dan 15 oed, Ambiwlans Awyr Cymru, Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r plwyf.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 16 Mawrth am 8yh.